**CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU**

**Teitl yr Adroddiad:** **Penodi Swyddogion Cydbwyllgor Corfforaethol Statudol**

**Dyddiad:** **25 Ionawr 2022**

| | |
|---|---|
| **Diben yr Adroddiad** | Penodi'r Swyddogion Statudol Canlynol i Gydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru;<br><br>Y Prif Weithredwr,<br><br>Y Prif Swyddog Cyllid ('Y Swyddog Adran 151'),<br><br>Y Swyddog Monitro |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i Gydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru benodi:<br>a) Dr Caroline Turner fel Prif Weithredwr Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth ("CCC")<br><br>b) Stephen Johnson fel Prif Swyddog Cyllid CCC<br><br>c) Clive Pinney fel y Swyddog Monitro a'r Swyddog Priodol |
| **Awdur yr Adroddiad** | Nicola Williams |
| **Swyddog Cyllid** | Amherthnasol |
| **Swyddogion Cyfreithiol** | Clive Pinney / Elin Prysor |

**Cefndir:**

1. Yn dilyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru'n sefydlu CCC, rhaid i'r Cydbwyllgor wneud trefniadau priodol yn ei gyfarfod cyntaf, ac yna cymeradwyo ei gyllideb ar gyfer 2022/23 erbyn 31 Ionawr 2022, cyn gweithredu gwaith cychwynnol CCC ar 30 Mehefin 2022.

2. Ymysg y trefniadau priodol cyntaf, rhaid i CCC benodi ei Swyddogion Statudol.

3. Yn unol â Rheoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i CCC benodi tri swyddog statudol, a fydd yn cynnwys Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid ('Y Swyddog 151'), a Swyddog Monitro.

4. Mae'r Rheoliadau Sefydlu'n caniatáu hyblygrwydd o ran sut y caiff CCC gyflogi staff, gan gynnwys swyddogion statudol. Caiff CCC eu cyflogi'n uniongyrchol, neu caiff ddod i gytundeb ag awdurdodau cyfansoddol i'w staff gael eu lleoli at wasanaeth CCC. Gan hynny, gallai awdurdodau cyfansoddol ddarparu swyddi'r swyddogion statudol allweddol hyn.

5. Yn ogystal, mae'n ofynnol penodi 'Swyddog Priodol' ar gyfer CCC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Penodiad gweithredol ond hanfodol yw hwn o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol. Yr esiampl amlycaf yw dynodi mater fel un eithriedig ar gyfer agendâu cyfarfodydd. Argymhellir penodi'r Swyddog Monitro i swydd y Swyddog Priodol i sicrhau nad oes amwysedd ynghylch y swydd.

6. Efallai y bydd risgiau dichonadwy ynglŷn â chapasiti a chadernid, lle mae'n rhaid i swyddogion statudol a ddarperir gan awdurdodau cyfansoddol ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith ychwanegol. Mae llwyth gwaith sylweddol parhaus ynghlwm wrth sefydlu CCC.

7. Mae sefydlu CCC yn ofynnol yn ôl y gyfraith ac mae'r amserlen yn heriol, yn enwedig yr angen i bennu'r gyllideb a chodi ffioedd ym mis Ionawr 2022.

8. Er mwyn galluogi'r CCC i fynd yn ei flaen, argymhellir y dylai'r swyddogion statudol gael eu darparu yn unol â'r argymhelliad uchod.

**Effeithiau Ariannol:**

9. Ni cheir effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**Asesiad Effaith Integredig:**

10. Mae CCC yn destun Deddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Mesur y Gymraeg (Cymru). Mae'n rhaid i CCC, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, dalu sylw dyledus i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth, ac ymddygiad arall y mae’r Deddfau yn ei wahardd.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rhai hynny nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rhai hynny nad ydynt.
- Cyflawni deilliannau gwell ar gyfer y rhai hynny sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol
- Ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r iaith Gymraeg
- Sicrhau nad yw’r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg.
- Gofalu bod anghenion heddiw yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

11. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy’n golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r 'nodau llesiant'.

12. Nid yw’n ofynnol cael Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan mai deddfwriaeth sydd wrth wraidd sefydlu CCC. Diben yr adroddiad hwn yw sefydlu trefniadau llywodraethu’n unol â deddfwriaeth. Byddwn yn cadw hwn dan arolwg a bydd adroddiadau’r dyfodol yn barnu a oes angen ystyried effeithiau.

**Effeithiau ar y Gweithlu:**

13. Nid oes unrhyw effaith ar y gweithlu’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**Effeithiau Cyfreithiol:**

14. Mae rhan 5, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu ar gyfer sefydlu, trwy reoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol (CCau). Bydd rhaid felly cydymffurfio â hwn a rhwymedigaethau deddfwriaethol eraill wrth sefydlu’r CCau. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru i rym ar 1 Ebrill 2021. Nododd y rheoliadau fframwaith cychwynnol, er enghraifft, y dylid sefydlu CCC, ac amserlenni ar gyfer cyflawni gweithrediadau penodol. Serch hyn, mae

Llywodraeth Cymru'n drafftio cyfres o Reoliadau pellach ac yn ymgynghori ar y rhain. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ymgynghori ar Reoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n ymgynghori ar arweiniad statudol drafft. Bydd trydydd cam y Rheoliadau'n sefydlu deddfwriaeth bellach ar gyfer gweithredu'r CCau a'u gweithgarwch, y mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bydd pedwerydd cam y rheoliadau'n gweithredu unrhyw ddarpariaethau sydd ar ôl y bydd eu hangen ar CCC.

**Effeithiau Rheoli Risg:**

15. Heb benodi swyddogion statudol priodol, ni fyddai CCC yn gallu gweithredu'n unol â'r rheoliadau.

**Ymgynghori:**

16. Nid oes angen ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

**Y Rhesymau am y Penderfyniad Arfaethedig:**

17. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle ar gyfer CCC.

**Gweithredu'r Atodiad:**

18. Rydym yn cynnig y penderfyniad hwn i'w weithredu ar unwaith.

**Atodiadau:**

19. Dim un.

**Rhestr o Bapurau Cefndirol:**

20. Dim un.